

Rhi: WG26416



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Pysgota Cregyn Bylchog ym Mae Ceredigion

Mesurau Rheoli Newydd



Dyddiad cyhoeddi: 26 Tachwedd 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Chwefror 2016

## Trosolwg

Y weledigaeth yng Nghynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd Cymru<sup>1</sup>, a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2013, yw moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol. Nod y cynllun gweithredu strategol yw cyflwyno dull seiliedig ar ecosystemau o reoli ein moroedd, gan ddiogelu a chadw adnoddau naturiol, a defnyddio poblogaethau iach fel sail i hybu twf economaidd cynaliadwy.

Yr her i reolwyr pysgodfeydd yw taro cydbwysedd rhwng yr angen i osgoi gweithgarwch sy'n niweidio'n hamgylchedd (drwy gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol penodol fel rheol), a'r dymuniad i sicrhau gwerth gorau posibl o'r gweithgareddau y gallwn eu cynnal yn gynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn nyfroedd Cymru, lle mae 35% o Fôr Tiriogaethol Cymru (hyd at 12 môr-filltir o'r lan) yn cael ei warchod ar hyn o bryd. Mae Bae Ceredigion yn un ardal o'r fath, gydag Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) wedi'i chreu i ddiogelu banciau tywod, riffiau coblau a dolffiniaid trwyn potel fel nodweddion y safle. Mae'r ardal yn cael ei hystyried hefyd fel rhan o gynnydd yn ymwneud â'r ACA ehangach i ddiogelu llamidyddion a fydd yn destun ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.

Mae llawer iawn o gregyn y brenin ym Mae Ceredigion a bu pysgodfa cregyn bylchog lewyrchus yno am flynyddoedd lawer. Yn dilyn cynnydd mawr mewn pysgota cregyn bylchog yn 2008 cafwyd cwynion nad oedd llusgrwydo cregyn bylchog yn gydnaws â nodweddion yr ACA. Ymhlith y cwynion oedd:

- 1) Byddai llusgrwydo cregyn bylchog yn cael effaith ffisegol negyddol uniongyrchol ar nodweddion riffiau coblau; a
- 2) Byddai llusgrwydo cregyn bylchog yn cael effaith negyddol ar organeddau môr-waelodol (sy'n byw ar wely'r môr) sy'n ffynhonnell fwyd i bysgod, sydd yn eu tro yn cael eu bwyta gan ddolffiniaid.

O ganlyniad i bryderon bod y gweithgarwch yn cael effaith negyddol ar nodweddion y safle, cafodd llusgrwydo cregyn bylchog ei wahardd ym môr tiriogaethol Cymru yn 2009. Yn 2010, ar ôl astudio'r rhan berthnasol o wely'r môr yn

helaeth, cyflwynwyd deddfwriaeth newydd a oedd yn caniatáu cyflwyno pysgodfa gyfyngedig o fewn ardal fechan o ACA Bae Ceredigion, y cyfeirir ati'n aml fel y "Kaiser Box". Ers hynny, mae'r ardal hon ar agor yn dymhorol er mwyn rhoi pysgodfa i'r diwydiant.

Nod Llywodraeth Cymru yn awr yw creu pysgodfa cregyn bylchog hyfyw a chynaliadwy o fewn ACA Bae Ceredigion, i gynnwys yr ardal lle mae pysgota cregyn bylchog wedi'i wahardd ar hyn o bryd yn ogystal â'r ardal lle mae hawl pysgota cregyn bylchog yn dymhorol (y Kaiser Box). Penderfynwyd ar y cynnig hwn yn dilyn rhaglen o waith ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor<sup>2</sup> ac mae'n golygu cyflwyno cynllun rheoli hyblyg a fydd yn cynyddu cymaint â phosibl y bysgodfa cregyn bylchog yn yr ACA, ond hefyd yn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol pwysig, yn lleihau'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig ac yn sicrhau cyflenwad cynaliadwy o gregyn bylchog i'r dyfodol.

O fewn yr ACA, mae pysgota cregyn bylchog wedi'i wahardd yn yr ardal o fewn 3 môr-filltir i'r lan ers blynyddoedd lawer. Mae'r ardal hon yn cynnwys cregyn bylchog sy'n gweithredu fel y stoc magu sy'n ailgyflenwi'r bysgodfa ymhellach oddi ar y lan. Felly, nid yw'r ardal o fewn 3 môr-filltir i'r lan yn cael ei hystyried yn y fframwaith rheoli newydd arfaethedig hwn a bydd pysgota cregyn bylchog yn parhau i gael ei wahardd yn yr ardal hon.

Mae gan gregyn bylchog botensial economaidd hirdymor sylweddol o'u rheoli a'u pysgota'n gynaliadwy. Bwriad Llywodraeth Cymru yw rheoli'r asedau hyn yn gynaliadwy er mwyn sicrhau twf economaidd priodol a diogelu bywoliaethau ar ein harfordir, ar yr un pryd â sicrhau bod rhywogaethau ac amgylcheddau morol bregus yn cael eu gwarchod yn briodol yn unol â'n rhwymedigaethau statudol. Yn ôl ystadegau'r Marine Management Organisation<sup>3</sup> rhwng 2012 a 2014, roedd 5,600 tonnall fetrig o gregyn bylchog yn glanio ym mhorthladdoedd Cymru ar longau Prydeinig bob blwyddyn, gyda gwerth cyfartalog o £5.4 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir y gallai'r cynllun rheoli newydd arfaethedig ychwanegu tua £6-10 miliwn y flwyddyn at economi Cymru.

<sup>1</sup> <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineand-fisheries/strategy/documents/strategic-action-plan/?lang=cy>

<sup>2</sup> <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/wales/scallops.php.en?menu=1&catid=10722&subid=10800>

<sup>3</sup> <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/uk-sea-fisheries-annual-statistics-report-2014>

Mae'r cynigion hyn yn berthnasol i Fae Ceredigion yn unig. Nid ydym yn bwriadu cynnig newidiadau eraill i bysgodfeydd cregyn bylchog yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â newidiadau posibl i dymor y bysgodfa a fyddai'n dechrau ar 1 Tachwedd 2016 fel arfer. Byddai trefniadau ar gyfer y bysgodfa sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2015 a 30 Ebrill 2016 yn aros fel ag y maent ac yn parhau i gael eu rheoleiddio o dan y fframwaith deddfwriaethol cyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am eich barn ar y ffordd orau i ni sicrhau pysgodfa cregyn bylchog gynaliadwy ym Mae Ceredigion. Mae'r cynigion manwl yr hoffem gael eich barn arnynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon a'r atodiadau ynghlwm.

## Sut i ymateb

Gallwch gyflwyno ymatebion ar ffurflen ar-lein sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/?lang=cy>

Gallwch ddychwelyd yr ymatebion hyn yn electronig neu drwy'r post ond byddai'n well gennym ni gael eich ymateb yn electronig.

Trwy'r e-bost: [fisheriesmailbox@Wales.gsi.gov.uk](mailto:fisheriesmailbox@Wales.gsi.gov.uk)

Trwy'r Post: Ymgynghoriad Cregyn Bylchog  
Is-adran y Môr a Physgodfeydd  
Llywodraeth Cymru  
Llys-y-Ddraig  
Parc Busnes Penlle'r-gaer  
Penlle'r-gaer, Abertawe  
SA4 9NX

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

For further information contact:  
Helen Jones on 0300 790 2459

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Crynodeb o'r sefyllfa gyfreithiol ar hyn o bryd

Mae pysgodfeydd cregyn bylchog yng Nghymru yn cael eu rheoli gan sawl lefel o ddeddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd. Maent yn cynnwys, yn ddomestig, [Deddf Pysgod Môr \(Cadwraeth\) 1967](#)<sup>4</sup>, is-ddeddfwriaeth (Offerynnau Statudol, gweler ymhellach isod) ac amrywiol [Is-ddeddfau](#)<sup>5</sup> yr hen Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr yng Nghymru a gafodd eu cadw. Ar lefel Ewropeaidd, mae amrywiaeth o offerynnau sy'n nodi gofynion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, yn cynnwys (at ddibenion yr ymgynghoriad hwn) [Rheoliad y Cyngor \(EC\) Rhif 850/98](#)<sup>6</sup> 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd drwy fesurau technegol er mwyn diogelu organeddau morol ifanc, sy'n nodi (yn Atodiad XII) meintiau gofynnol ar gyfer cregyn bylchog (*Pecten maximus*). Gall deddfwriaeth ddomestig (dan rai amgylchiadau) fod yn llymach ond ni all gyflwyno mesurau sy'n llai cadwraethol na'r rhai a geir yn neddfwriaeth yr UE. Hefyd, mae rhai o ddarpariaethau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â'r amgylchedd (er enghraifft, y [Gyfarwyddeb Cynefinoedd](#)<sup>7</sup> a'r [Gyfarwyddeb Adar Gwyllt](#)<sup>8</sup>) yn berthnasol.

Mae is-ddeddfwriaeth gyfredol ar gyfer rheoli cregyn bylchog yn cynnwys [Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog \(Cymru\) \(Rhif 2\) 2010](#)<sup>9</sup> a [Gorchymyn Llusgrwydo Cregyn Bylchog \(Dyfeisiau Olrhain\) \(Cymru\) 2012](#)<sup>10</sup>.

Cyn 1 Ebrill 2010, roedd ardal pysgodfeydd y glannau (h.y. yr ardal o fewn 6 môr-filltir o'r llinellau sylfaen) o amgylch Cymru'n cael ei rheoli gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr y Gogledd-orllewin a Gogledd Cymru. Sefydlwyd y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr o dan Ddeddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 ("Deddf 1966").

Ar 1 Ebrill 2010, cafodd Deddf 1966 ei diddymu mewn perthynas â Chymru, cafodd y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr eu dileu ac ysgwyddodd Gweinidogion Cymru gyfrifoldeb llawn dros reoli pysgodfeydd ym Mharth Cymru. Cafodd Is-ddeddfau'r Pwyllgorau hynny eu cadw ac (ers 1 Ebrill 2010) maent wedi bod mewn grym fel petaent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol, yn rhinwedd [Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 \(Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed\) \(Cymru a Lloegr\) 2010 \(O.S. 2010/630\)](#)<sup>11</sup>. Mae darpariaethau'r Is-ddeddfau hynny a gadwyd yn berthnasol o hyd o fewn ardal Dosbarth perthnasol yr hen Bwyllgorau (sy'n cynnwys ardal sy'n ymestyn chwe môr-filltir o'r llinellau sylfaen).

Mae [Is-ddeddfau](#)<sup>12</sup> 14, 40 a 45 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt ac Is-ddeddfau 12 ac 20 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr y Gogledd-orllewin a Gogledd Cymru gynt yn berthnasol i reoleiddio pysgota cregyn bylchog yng Nghymru hefyd.

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1967/84/contents>

<sup>5</sup> <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/compliance-monitoring/commercial-sea-fisheries-regulation-bylaw/?lang=cy>

<sup>6</sup> <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1430215578324&uri=CELEX:01998R0850-20140101>

<sup>7</sup> <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1443620132485&uri=CELEX:31992L0043>

<sup>8</sup> <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1443620348640&uri=CELEX:32009L0147>

<sup>9</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/269/contents/made>

<sup>10</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/2729/contents/made>

<sup>11</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/630/contents/made>

<sup>12</sup> <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/compliance-monitoring/commercial-sea-fisheries-regulation-bylaw/?lang=cy>

## **Heriau gyda'r ffordd y rheolir pysgodfeydd ar hyn o bryd**

Yn 2010, cyflwynwyd deddfwriaeth newydd ledled Cymru a rhoddwyd trefn reoli ar waith a oedd yn caniatáu pysgodfa cregyn bylchog gyfyngedig yn ardal Bae Ceredigion unwaith yn rhagor.

Mae Gorchymyn Pysgota Cregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 yn rheoli'r bysgodfa cregyn bylchog ledled Cymru ac mae'n cynnwys cyfyngiadau technegol (h.y. math o offer a faint o offer ac ati), amserol (h.y. tymor neu am faint o amser ac ati) a gofodol (h.y. ardal). Mae Gorchymyn 2010 yn gwahardd llusgrwydo cregyn bylchog mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi fel rhai pwysig i rywogaethau a chynefinoedd morol agored i niwed ac mae'n caniatáu i ardal benodol o fewn ACA Bae Ceredigion (y Kaiser Box) agor ar 1 Tachwedd a chau ar 30 Ebrill bob blwyddyn.

Mae yna system drwyddedu ar waith hefyd, sy'n cael ei gweithredu o dan yr Is-ddeddfau a gadwyd (ac sydd felly ond yn berthnasol hyd at chwe môr-filltir o'r lan). Nid oes system drwyddedu ar waith yn yr ardal rhwng 6 a 12 môr-filltir o linellau sylfaen ar hyn o bryd.

Mae'r ardaloedd lle caniateir pysgota cregyn bylchog wedi cael eu pysgota'n ddwys iawn dros y 5 mlynedd diwethaf (h.y. ers gwneud Gorchymyn 2010) ac mae'r stoc o gregyn bylchog yn yr ardaloedd hynny'n cael eu dihysbyddu. Yn y cyfamser, mae tystiolaeth fod digonedd o gregyn bylchog yn yr ardaloedd lle na cheir eu pysgota, ac mae pryder nad yw'r cregyn bylchog hyn yn tyfu mor gyflym ag y gallent oherwydd bod gormod ohonynt mewn un man ac oherwydd cystadleuaeth am adnoddau. Felly, nid yw'r sefyllfa fel ag y mae yn galluogi'r defnydd cynaliadwy gorau posibl o'r adnodd naturiol hwn.

Mae rhai pobl yn y diwydiant pysgota yn poeni bod y cyfyngiadau cyfredol ar bysgota cregyn bylchog yn anghymesur oherwydd, yn eu barn nhw, nid yw llusgrwydo cregyn bylchog o fewn rhai ACA penodol (yn cynnwys ACA Bae Ceredigion) yn niweidio'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan y dynodiad amgylcheddol hwnnw. Prif sail y dadleuon hyn yw'r gred nad oes yna lawer o nodweddion gwely'r môr sensitif, a hefyd natur ddeinamig Bae Ceredigion. Fodd bynnag, rhaid gweld y pryderon hyn yng nghyd-destun rhwymedigaethau cyfreithiol Gweinidogion Cymru i ddiogelu nodweddion dynodedig ACAoedd.

## **Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?**

### Tystiolaeth dros Newid – Ymchwil Wyddonol

Mae [Arbrawf Dwysedd Pysgota Cregyn Bylchog](#)<sup>13</sup> gan Brifysgol Bangor ar y cyd â'r diwydiant wedi'i gynnal dros y 2 flynedd ddiwethaf yn ACA Bae Ceredigion.

Hyd yma, mae dwy ardal o'r ACA wedi cael eu hastudio'n helaeth, er bod samplau pellach wedi cael eu casglu o bob cwr o'r ACA. Mae'r ddwy ardal sydd wedi cael eu hastudio'n helaeth wedi'u lleoli rhwng 3 a 12 môr-filltir o'r arfordir. O fewn y ddwy ardal hyn, mae nodweddion riffiau coblau yn absennol yn fwy na heb. Cymysgedd o raeau tywodlyd a thywod graeanog gyda gwaddod symudol ar ben is-haen fwy

<sup>13</sup> <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/wales/reports.php.en?menu=1&catid=10722&subid=10805>

sefydlog yw gwely'r môr yn bennaf. Mae'r ardal yn gymharol fas (<40m o ddyfnder) ac mae gan y tonnau gryn egni yn ystod stormydd. Ceir cerhyntau llanw isel i gymedrol ond maent yn ddigon cryf i siapio nodweddion tonnau tywod ar wely'r môr.

Yn 2014, cynhaliwyd arbrawf graddfa fawr ar ddwysedd pysgota cregyn bylchog er mwyn:

- 1) canfod faint o lusgrwydo cregyn bylchog a fyddai'n arwain at newidiadau byrdymor yn y gymuned anifeiliaid ar wely'r môr;
- 2) canfod maint effaith llusgrwydo cregyn bylchog ar nodweddion ffisegol gwely'r môr; a
- 3) deall pa mor gyflym roedd gwely'r môr ffisegol a'r gymuned anifeiliaid yn adfer ar ôl llusgrwydo cregyn bylchog.

Casgliad yr arbrawf hwn oedd, wrth i ddwysedd cregyn bylchog gynyddu, bod yr effeithiau negyddol ar y gymuned anifeiliaid yn cynyddu hefyd nes bod nifer a biomas (h.y. pwysau) organeddau fesul uned arwynebedd o wely'r môr wedi lleihau. Fodd bynnag, roedd yr effeithiau hyn yn gymharol fach a byrhoedlog a chawsant eu gwrthdroi yn y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi yn yr un flwyddyn (nodwch y byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'r tymor caeedig ar gyfer rhai pysgodfeydd cregyn bylchog).

Yn dibynnu ar y math o waddod, roedd nifer a biomas y rhywogaethau môr-waelodol (yn enwedig ysglyfaeth pysgod) wedi cynyddu yn yr ardaloedd lle bu'r llusgrwydo cregyn bylchog dwysaf. Gallai hyn fod o ganlyniad i dynnu'r cregyn bylchog sy'n cyfrif fel y ffawna trechol (o ran biomas) o fewn yr ardaloedd a astudiwyd - h.y. tynnu'r prif gystadleuydd am fwyd. Felly mae'n ymddangos nad yw effeithiau llusgrwydo cregyn bylchog ar rywogaethau ysglyfaeth pysgod yn destun pryder.

Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd gwely'r môr, nid oedd effeithiau ffisegol llusgrwydo cregyn bylchog i'w gweld mwyach 12 mis yn ddiweddarach. Roedd dau eithriad i hyn - un ardal fwy coblog o wely'r môr yn agos at y parth 3 môr-filltir a oedd wedi cael ei physgota rhwng 3 a 4 gwaith, ac un ardal yn y parth 6-12 môr-filltir a oedd wedi cael ei physgota ychydig mwy na 6 gwaith (mae'r ffigurau hyn yn deillio o gyfrifo cyfartaledd y dwysedd pysgota ar draws ardal bysgota'r arbrawf). Gan fod lleoliad yr ardaloedd hyn wedi'u nodi bellach, bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i'w diogelu drwy osod cyfyngiadau gofodol.

Mae canlyniadau'r arbrawf hwn ar ddwysedd pysgota cregyn bylchog wedi creu cyfle unigryw i weithredu dull rheoli sy'n seiliedig ar ecosystemau ym Mae Ceredigion. Bydd hwn yn gam arloesol arwyddocaol ym maes rheoli pysgodfeydd yng Nghymru. Bydd y cynigion yn gofyn am gryn ddealltwriaeth a chydweithrediad gan y diwydiant pysgota ac ymrwymiad i gydweithio â rheolwyr pysgodfeydd dros nifer o flynyddoedd i ddatblygu a gweithredu pysgodfa gynaliadwy.

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cyn yr ymgynghoriad drwy Grŵp Llywio Strategaeth Cregyn Bylchog Dyfroedd Cymru a sefydlwyd yn 2012 ac sy'n cynnwys Cymdeithasau Pysgotwyr, Prifysgol Bangor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Seafish

Cymru a Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru. Mae Grwpiau Pysgodfeydd Glannau Cymru wedi cyfrannu mewn rôl gynghori hefyd.

Mae trafodaethau drwy'r Grŵp Llywio wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i lunio polisiau sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid a hefyd yr amgylchedd, gan arwain at ddatblygu'r cynigion rheoleiddio newydd.

Mae datblygu'r cynigion hyn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a defnyddwyr, ac ymgysylltu mewn ffordd dryloyw ar bob cam, wedi ein helpu ni i lunio polisiau perthnasol ac ymarferol a fydd, gobeithio, yn cael cefnogaeth y diwydiant. Cafodd nifer o ddewisiadau rheoli eu hystyried yn y cyfnod cyn ymgynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gwyddonwyr, Llywodraeth Cymru ac aelodau'r grŵp sy'n cynrychioli'r diwydiant. Cytunwyd mai'r unig drefn ddeddfwriaethol briodol i'w defnyddio i gyflawni ein nodau rheoli oedd y cynllun trwyddedu arfaethedig.

Credwn fod y cynigion hyn yn hygyrch, bod modd eu gorfodi a'u bod mor syml â phosibl. Byddant yn esgor ar ddiwydiant cynaliadwy ond hefyd yn sicrhau bod nodweddion morol agored i niwed yn cael eu diogelu'n briodol.

#### Effaith Amgylcheddol

Bydd Llywodraeth Cymru'n asesu effaith amgylcheddol bosibl y cynigion dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn drwy gynnal Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd (fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ar ddiogelu cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwylt ("y Gyfarwyddeb Cynefinoedd")). Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau ymgynghori i'r perwyl hwn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Ein cynigion

1. Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer Cregyn Bylchog, o dan adran 189 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i ddod i rym ar 1 Tachwedd 2016, gydag amodau ynghlwm, y gellir codi ffi amdano. Dim ond i'r parth rhwng 3 môr-filltir a 12 môr-filltir o'r lan yn ardal Bae Ceredigion y byddai'r cynllun trwyddedu yn berthnasol. Er mwyn cael trwydded, byddai'n rhaid i gwch pysgota trwyddedig a'r meistr gydymffurfio â nifer o ofynion llym er mwyn sicrhau bod y bysgodfa'n aros yn hyfyw ac yn gyfreithlon. Ni fydd gweithgarwch blaenorol yn y bysgodfa ("track record") yn faen prawf ar gyfer dyrannu trwyddedau.
2. Byddai pob trwydded yn cael ei rhoi'n flynyddol ac yn para gydol y tymor pysgota cregyn bylchog perthnasol. Bydd y tymor perthnasol ar gyfer pob blwyddyn yn cael ei nodi yn y drwydded ond byddai'n dechrau ar 1 Tachwedd ar y cynharaf ac yn gorffen ar 30 Ebrill ar yr hwyraf. Bydd y tymor a'r amodau ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu gosod bob blwyddyn ar sail yr arolygon diweddaraf ac ymgynghoriad, ac yna'n cael eu rhoi ar waith. Fel hyn, byddai modd sicrhau rheolaeth hyblyg o fewn y fframwaith deddfwriaethol, fel y gallai pysgodfa pob tymor weithio'n unol â'r ddealltwriaeth fanwl o'r ecosystem, a'r dechnoleg orau sydd ar gael, ar yr adeg honno. Dyma'r amodau dan ystyriaeth:

- a. Rheoli ymdrech (h.y. cyfyngu ar nifer y diwrnodau neu oriau y gellir llusgrwydo bob tymor).

Sail resymegol – Dull syml ac effeithiol o gyfyngu ar faint mae gwely'r môr yn cael ei amharu yw trwy gyfyngu ar sawl gwaith y caiff yr ardal ei llusgrwydo. Bydd modd pennu nifer y diwrnodau neu oriau y gellir eu dyrannu'n ddiogel, ar yr amod bod gwybodaeth bellach yn hysbys, e.e. nifer y llusgrwydi y mae cychod yn bwriadu eu tynnu.

- b. Mesurau technegol (h.y. cyfyngiadau offer, maint cychod, pŵer yr injan, math o lusgrwyd).

Sail resymegol – Mae'n hanfodol deall a chyfyngu ar allu cychod ac offer er mwyn diogelu'r stoc o bysgod a gwely'r môr. Bydd hyn hefyd yn golygu bod modd asesu'n effeithiol allu pob cwch sy'n gwneud cais am drwydded, wrth gyfrifo sawl diwrnod neu awr y gall bysgota.

- c. Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir ar gyfer y bysgodfa, wedi'i rannu i roi'r uchafswm y gall pob cwch ei ddal (h.y. cwota).

Sail resymegol – Mae'n hollbwysig ein bod ni'n gallu cyfyngu ar y ddalfa er mwyn diogelu'r stoc ac felly sicrhau pysgodfa sy'n parhau'n hyfyw. Efallai na fydd hyn yn angenrheidiol yn dibynnu ar lefelau'r stoc a'r rheolaethau ar ymdrech ond mae angen ei ystyried fel posibilrwydd.

- d. Cyfyngiadau amserol (h.y. cyfnod penodol pan fydd yn bysgodfa ar agor mewn tymor (gyda'r tymor hiraf posibl yn para rhwng 1 Tachwedd a 30 Ebrill); neu oriau cyfyngedig o'r dydd pan fyddai hawl pysgota).

Sail resymegol - Efallai y bydd angen, mewn unrhyw dymor penodol, fyrhau o flaen llaw y cyfnod hiraf y gellir pysgota yn y bysgodfa, os



yw'n hysbys bod y stoc wedi lleihau, neu oherwydd rhyw ffactorau gweinyddol neu amgylcheddol eraill. Er mwyn ei gwneud hi'n haws gorfodi hyn, mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol cyfyngu ar yr adegau o'r dydd y mae hawl pysgota.

- e. Cylchdroi'r ardaloedd sydd ar agor.

Sail resymegol – Bydd gallu cylchdroi'r ardaloedd sydd ar agor ac ar gau yn ffordd arall o sicrhau bod stociau cregyn bylchog yn cael cyfle i adfer, ac adfer nodweddion gwely'r môr.

- f. Cyfyngiadau ar faint cregyn bylchog.

Sail resymegol – Mae cyfyngiadau isafswm maint yn fesur rheoli a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer diogelu stoc magu a sicrhau cregyn bylchog newydd yn y bysgodfa i'r dyfodol.

- g. Y gallu i gau ardal ar fyr rybudd.

Sail resymegol – Mae'n bosibl y bydd angen cau'r bysgodfa os bydd y terfyn ar gyfer y stoc cregyn bylchog neu'r terfyn ar gyfer amharu ar wely'r môr wedi'u cyrraedd cyn diwedd y tymor agored.

- h. Gosod Systemau Monitro Cychod priodol a thechnoleg fonitro briodol arall megis 'offer i mewn offer allan'.

Sail resymegol – Mae systemau monitro cychod ac offer yn adnodd hanfodol sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion rheoli a gorfodi.

- i. Gofynion casglu data

Sail resymegol – Mae angen i reolwyr ddeall faint o gregyn bylchog sy'n cael eu tynnu o'r bysgodfa a bydd y data hwn o gymorth wrth asesu stoc i'r dyfodol. Bydd hi'n ofynnol i ddeiliaid trwydded gynnal safon uchel iawn yn y cyd-destun hwn yn ôl pob tebyg.

- j. Gofyniad Casglu Tystiolaeth.

Sail resymegol - Er mwyn sicrhau bod y bysgodfa'n parhau i fod yn hyfyw, bydd angen sicrhau'r ddealltwriaeth orau o'r ecosystem a'r stoc, wrth i'r bysgodfa esblygu. Mae'n debygol mai cychod sy'n weithgar yn y bysgodfa fydd yn y sefyllfa orau i gynorthwyo gyda chasglu'r data hwn ac mae'n bosibl y bydd hynny'n ofynnol fel un o amodau'r drwydded.

3. Rhoi ffi am bob trwydded. Byddai maint y ffi yn annog cyfranogiad y rheini sydd â buddiant hirdymor yn lles y bysgodfa. Bydd y ffi'n cael ei gosod yn flynyddol a bydd yn destun ymgynghoriad cyn pob tymor.
4. Sefydlu bwrdd cynghori ar reoli anstatudol i gynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth iddi oruchwylio'r bysgodfa cregyn bylchog ym Mae Ceredigion.

Gallai gwaith y bwrdd gynnwys:

- a. Cyfrannu at lunio'r arolwg gwyddonol blynyddol.
- b. Derbynnu canlyniadau'r arolwg.
- c. Gwneud argymhellion i'r Gweinidog ynghylch gosod amodau.

## Rhestr o Randdeiliaid yr Ymgynghoriad

## Atodiad 1

Deiliaid Trwydded Cregyn Bylchog Cyfredol (2014/15)	Marine Conservation Society
Pysgotwyr trwyddedig	Whales & Dolphin Conservation Society
Grŵp Pysgodfeydd y Glannau - Gogledd	Y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur (JNCC)
Grŵp Pysgodfeydd y Glannau - De	Fforwm Arfordir Sir Benfro
Grŵp Pysgodfeydd y Glannau - Canolbarth	Cyfoeth Naturiol Cymru
Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru	ACA Bae Ceredigion
Grŵp Cynghori ar Strategaeth Fôr Cymru	ACA Bae Caerfyrddin
Cymdeithas Pysgotwyr Cymru	ACA Forol Sir Benfro
Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion	ACA Pen Llŷn Sarnau
Cymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru	Ystadau'r Goron
South & West Wales Fishing Communities Ltd	New Under Ten Fishermen's Association
Cymdeithas Pysgotwyr Cregyn Bylchog Glannau Cymru	Oneida Fish
Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn	Quay Fresh
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn	Castle Bay Seafoods
Cydweithfa Pysgotwyr Gogledd Cymru	Pysgod Cregyn Bae Aberteifi
Clyde Fishermen's Association	Lynn Shellfish
Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru	Syren Shellfish
North Devon Fishermen's Association	
Ffederasiwn Cenedlaethol o Sefydliadau Pysgotwyr	
Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr	
Awdurdod Pysgod Cregyn Prydain	
DEFRA	
DARD NI	
Llywodraeth Ynys Manaw	
Llywodraeth Iwerddon	
Llywodraeth yr Alban	
Sussex IFCA (Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau)	
Northumberland IFCA	
North Western IFCA	
Southern IFCA	
Eastern IFCA	
Kent & Essex IFCA	
North Western IFCA	
North Eastern IFCA	
Devon & Severn IFCA	
Wales Environment Link	